Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

22 Gorffennaf 2010

Annwyl Gyfaill,

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru.

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

Mae Cymru wedi methu â chyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth ei hun a rhai'r UE ar gyfer 2010.

Nod yr ymchwiliad yw annog trafodaeth gyhoeddus ynghylch y targedau drwy fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr atebion i'r cwestiwn:

Pam na lwyddodd Cymru i gyrraedd targedau 2010 ar gyfer rhoi terfyn ar golli bioamrywiaeth a pha newidiadau mewn dulliau gweithredu sydd angen eu gwneud i sicrhau mwy o gynnydd yn y dyfodol?

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- Pa ddulliau cyflenwi a ddefnyddiwyd i geisio cyrraedd targedau 2010?
- Pam na lwyddodd y rhain?
- A yw'r dull presennol o fynd i'r afael â lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo yng Nghymru wedi'i integreiddio'n ddigonol â'r polisïau ar gyfer bioamrywiaeth?
- Pa enghreifftiau o arfer da sydd i'w cael mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y gall Cymru ddysgu ohonynt?
- Beth yw goblygiadau'r targedau rhyngwladol sy'n ymddangos ar gyfer 2020 a thu hwnt?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8153
@wales.gov.uk

Hoffai'r Pwyllgor alw am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn sy'n amlinellu barn eich sefydliadau ynghylch y cwestiynau uchod.

Anfonwch unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn **dydd Gwener 24 Medi 2010,** at Virginia Hawkins yn:

sustainability.comm@Wales.gov.uk

neu i

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y Pwyllgor ar ein gwefan yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yn gywir,



Kirsty Williams
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd**